**Cynnydd ar yr ymateb i'r Pwyllgor Craffu Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i Gynllunio Gweithlu ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Chwefror 2010**

## 1. Diweddariad cyffredinol ar y cynnydd a wnaed

1.1 Dosbarthwyd Cylchlythyr Iechyd Cymru 2008 (50) i GIG Cymru ym mis Mai 2008. Nododd ganllawiau ar gyfer cyflwyno'r broses integredig newydd ar gyfer cynllunio'r gweithlu.
Roedd tri gofyniad, sef
- (i) datblygu cynllun gweithredu sy'n nodi sut y câi eu cynlluniau gweithlu eu datblygu a'u gweithredu erbyn canol mis Gorffennaf
- (ii) cyflwyno cynlluniau ar gyfer proses gomisiynu addysg 2009/10 ym mis Medi 2008
- (iii) cysoni gweithgarwch cynllunio'r gweithlu â chylchoedd ariannol a chylchoedd cynllunio gwasanaethau a darparu cynllun gweithlu integredig i'r gymuned iechyd ym mis Mawrth 2009

1.2 Cyflwynodd holl sefydliadau GIG Cymru gynlluniau fel oedd yn ofynnol a rhoddwyd adborth gan yr Asiantaeth Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH). Mae data a roddwyd yn y cynlluniau bellach yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu niferoedd comisiynu addysg ar gyfer y myfyrwyr newydd a fydd yn dechrau cyrsiau ym mis Medi 2010.

1.3 Rhoddwyd canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer proses cynllunio'r gweithlu 2010 i sefydliadau. Caiff gofynion o ran cynllunio'r gweithlu eu cynnwys hefyd yn Fframwaith Gweithredu Blynyddol a phroses CDLl 2010 er mwyn bwrw ymlaen â'r broses o integreiddio gweithgarwch cynllunio'r gweithlu â gweithgarwch cynllunio gwasanaethau a chynllunio ariannol. .

1.4 Mae'r gwaith o gynorthwyo sefydliadau i gyflawni Cynlluniau Gweithlu Integredig i'r Gymuned Iechyd ar gyfer mis Mawrth 2010 yn mynd rhagddo drwy ddarparu rhaglenni hyfforddi a datblygu pwrpasol, sy'n adlewyrchu anghenion lleol, a chymorth unigol i sefydliadau drwy'r tîm cynllunio'r gweithlu a rheolwyr moderneiddio'r gweithlu.

1.5 Mae pob un o'r pum ffrwd waith a sefydlwyd i fwrw ymlaen â'r broses weithredu, (sef, y Rhyng-gysylltiad rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Sylfaenol, Gwybodaeth am y Gweithlu, y Sector Annibynnol a'r Trydydd Sector a Meddygol a Deintyddol gan gynnwys Meddygon Teulu), wedi cyflwyno adroddiadau gan gynnwys argymhellion a chamau gweithredu i Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd bellach yn cael eu hystyried fel rhan o weithgarwch cynllunio strategol ar gyfer y dyfodol.

## 2. Diweddariad penodol ar argymhellion yn yr Adroddiad Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol (2008)

2.1 Yn yr ymateb cychwynnol nodwyd y byddem yn parhau i ystyried y prosesau i ddod â gweithgarwch cynllunio a chomisiynu addysg feddygol a deintyddol a phrosesau proffesiynol anfeddygol at ei gilydd, er nad oedd yn argymhelliad penodol. Mae

paragraffau 2.2 i 2.9 yn nodi'r cynnydd a wnaed cyn y manylir ar bob un o'r argymhellion penodol o'r adroddiad.

2.2 Mae proses cynllunio'r gweithlu a arweinir gan NLIAH, yn cwmpasu staff meddygol/deintyddol a staff nad ydynt yn rhai meddygol na deintyddol. Y prosesau comisiynu addysg sy'n cael eu cyflawni ar wahân ar hyn o bryd.

2.3 Dim ond drwy sefydlu Uned y Gweithlu yn 2006 a phenderfynu y byddai'r gyllideb ar gyfer addysg a hyfforddiant meddygol/deintyddol yn aros yn Is-adran Adnoddau Dynol y GIG o fewn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y sicrhawyd y newid hwn.

2.4 Cynigiodd y ffrwd waith feddygol a deintyddol broses newydd i sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn briodol a gwaith cynllunio tymor hwy effeithiol, a gychwynnodd ar ddechrau 2009 i baratoi ar gyfer derbyn y set gyntaf o gynlluniau i'r Gymuned Iechyd ym mis Mawrth 2009.

2.5 Mae'r broses yn sicrhau'r canlynol;

- Caiff y cyrff sy'n gyfrifol am gomisiynu staff meddygol a deintyddol (gan gynnwys israddedigion, ôl-raddedigion/staff gradd hyfforddi, a staff â chymwysterau llawn) eu nodi'n glir. Mae hyn yn cynnwys y cyfrifoldeb am bennu niferoedd hyfforddi mewn arbenigeddau a gwybodaeth am yr holl ffactorau allweddol sy'n debygol o lywio'r gweithlu meddygol a deintyddol yn y dyfodol
- Mae cysylltiad rhwng gweithgarwch cynllunio'r gweithlu (sydd wedi canolbwyntio'n hanesyddol ar gofrestryddion arbenigol a meddygon ymgynghorol) a'r broses o nodi nifer yr israddedigion meddygol a deintyddol a dderbynnir (sydd wedyn yn llywio lefelau graddau Sylfaen a hyfforddiant arall). Mae hyn yn sicrhau bod y systemau perthnasol ar waith yng Nghyfarwyddiaeth Gyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac APADGOS.
- Cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, cynhwysir y gweithlu meddygol a deintyddol cyfan a hyfforddir gan GIG Cymru yn y broses o gynllunio'r gweithlu, gan gynnwys meddygon teulu, academyddion, ymchwilwyr, rheolwyr clinigol ac addysgwyr clinigol.

2.6. Roedd y broses newydd yn gofyn am sefydlu Grŵp Gweithlu Meddygol a Deintyddol i ystyried y newidiadau sydd eu hangen o fewn y gweithlu meddygol a deintyddol yn ystod y 1-5 mlynedd nesaf. Er mai dim ond yn ddiweddar y sefydlwyd y grŵp, mae'r fframwaith cyfan yn cael ei adolygu i sicrhau synergedd llawn â gweithgarwch cynllunio'r gweithlu ar gyfer staff nad ydynt yn rhai meddygol na deintyddol a bod y gwaith o gynllunio'r gweithlu ar gyfer staff meddygol a deintyddol wedi'i integreiddio'n llawn â phrosesau cynllunio gwasanaethau a chynllunio ariannol. Mae hyn yn cael ei drafod yn y Tîm Gweithredol ac mae cynigion ar gyfer y ffordd ymlaen yn cael eu datblygu gan Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol, y Cyfarwyddwr Meddygol Interim a'r Prif Swyddog Meddygol.

2.7 Bwriedir hefyd sefydlu Bwrdd Moderneiddio'r Gweithlu Iechyd i edrych ar holl faterion y gweithlu yn y tymor hwy gan gynnwys y gweithlu meddygol a deintyddol.

Byddai'r corff hwn yn ystyried y ffactorau sy'n debygol o lywio'r gweithlu dros y 6-30 mlynedd nesaf a byddai'n llunio argymhellion i lywio strategaeth y GIG a pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru.

2.8 I grynhoi, bydd y fframwaith diwygiedig yn sicrhau bod argymhellion o ran niferoedd comisiynu ar gyfer hyfforddeion mewn arbenigeddau meddygol gan gynnwys graddau eraill e.e. israddedig, Hyfforddiant Sylfaenol 1 a 2, Rhaglenni Hyfforddi Arbenigedd Craidd, yn cael eu gwneud gan ystyried y strategaeth ar gyfer y gweithlu meddygol a deintyddol. Rhoddir y wybodaeth hon i Adran Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a fydd yn gwneud cyflwyniad i Fwrdd Moderneiddio'r Gweithlu Iechyd ac APADGOS.

2.9 Byddai argymhellion gan y MDWG a'r HWMB hefyd yn cael eu rhoi i Fwrdd Rhanddeiliaid Uned Datblygu'r Gweithlu i lywio ei argymhellion ar gyfer lefelau comisiynu staff nad ydynt yn rhai meddygol na deintyddol. Bydd y broses hon yn sicrhau dull symlach a mwy cydgysylltiedig o weithredu'r ddau drefniant comisiynu gwahanol.

## 3. Argymhellion Penodol - Gwasanaeth Iechyd

**Argymhelliad 1. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gymryd camau i wella'r sefyllfa bresennol lle nad oes gan Fyrddau Iechyd Lleol yr adnoddau i gyfrannu'n effeithiol at weithgarwch cynllunio'r gweithlu, sefyllfa sy'n peri pryder. (Derbyniwyd)**

3.1 **Mae'r** rhaglen hyfforddiant cynllunio'r gweithlu a gynigir gan NLIAH wedi bod yn cynnwys staff o'r hen Fyrddau Iechyd Lleol. Mae'r broses integredig newydd ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddatblygu rhwydweithiau cynllunio ar draws economïau iechyd, sy'n ategu'r gwaith o ddatblygu gallu ac adnoddau yn y BILlau newydd.

**Argymhelliad 2. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithredu ar frys i gyflogi neu hyfforddi cynllunwyr gweithlu ychwanegol yn Uned Datblygu'r Gweithlu NLIAH. (Derbyniwyd)**

3.2 Yn ogystal â'r cynlluniwr gweithlu sy'n arbenigo mewn cynllunio'r gweithlu meddygol a deintyddol, mae naw aelod o staff bellach wedi cael hyfforddiant cynllunio'r gweithlu yn NLIAH. Mae 11 o gynllunwyr gweithlu sy'n gweithio yn y Byrddau Iechyd Lleol newydd wedi dilyn cwrs cynllunio'r gweithlu pwrpasol a drefnwyd gan Dîm Adolygu'r Gweithlu yn Lloegr. Bydd uwch aelod o staff Uned Datblygu'r Gweithlu yn gweithio tuag at y Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Cynllunio Gweithlu Strategol yn ystod 2009/10. Fodd bynnag, dylid nodi nad oes hyfforddiant tebyg ar gael i'r un graddau yn y sector gofal cymdeithasol.

**Argymhelliad 3. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sut y gellid atgyfnerthu systemau cynllunio rhanbarthol yn enwedig drwy ddod â Byrddau Iechyd Lleol at ei gilydd ar lefel ranbarthol. (Derbyniwyd)**

3.3 Bydd y gwaith a wnaed yn ddiweddar i ad-drefnu'r GIG a chreu BILlau newydd yn ymdrin â'r mater hwn.

**Argymhelliad 4. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r trefniadau ar gyfer cynnwys Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn system cynllunio'r gweithlu i sicrhau bod unigolyn penodol sy'n gyfrifol am Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Dylai hyn gynnwys cynrychiolydd o Bwyllgor Cynghori Therapïau Cymru ar fwrdd rhanddeiliaid Uned Datblygu'r Gweithlu NLIAH. (Derbyniwyd)**

3.4 Erbyn hyn mae dau gynrychiolydd o Bwyllgor Cynghori Therapïau Cymru ar Fwrdd Rhanddeiliaid Uned Datblygu'r Gweithlu. At hynny mae holl arweinwyr polisi gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd o gyrff proffesiynol yn cymryd rhan yn y broses comisiynu addysg ac mae cynlluniau gweithlu yn cael eu trafod gyda hwy cyn gwneud argymhellion.

Lle mae gan Fwrdd Iechyd Lleol newydd Gyfarwyddwr Therapi/Gwyddoniaeth ymgysylltwyd â'r rhain yn ystod hydref 2009.

**Argymhelliad 5. Argymhellwn y dylai NLIAH gymryd camau i sicrhau bod y sector gwirfoddol, grwpiau cleifion a'r Undebau Llafur yn cyfrannu'n ystyrlon i'r system integredig newydd ar gyfer cynllunio'r gweithlu. (Derbyniwyd)**

3.5 Fel rhan o'r prosiect cynllunio'r gweithlu integredig edrychodd ffrwd waith benodol ar y fethodoleg fwyaf priodol i'r sector gwirfoddol a'r sectorau annibynnol gyfrannu i'r broses o gynllunio'r gweithlu. Mae eu hargymhellion yn cynnwys yr angen i Gymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru gytuno ar broses ar gyfer rhannu gofynion o ran y gweithlu yn y dyfodol â NLIAH. Maent wedi awgrymu bod angen rhagor o waith i bennu cwmpas y ddarpariaeth gofal iechyd a'r gweithlu yn y trydydd sector a gweddill y sector annibynnol, ynghyd â threfniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i atgyfnerthu'r trefniadau presennol.

Mae Fforwm Partneriaeth Cymru ac aelodau unigol yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio'r gweithlu.

**Argymhelliad 6. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu a ellir symleiddio'r trefniadau ariannu ar gyfer hyfforddiant meddygol a deintyddol ôl-gofrestru a chyn cofrestru i sicrhau proses fwy cydlynol o gynllunio'r gweithlu. (Derbyniwyd mewn egwyddor)**

**3.6.1 Arian ar gyfer addysg feddygol cyn cofrestru**

3.6.1.1Ar hyn o bryd ariennir elfen academaidd y pedair blynedd gyntaf drwy gyllidebau addysg a'r elfen glinigol drwy iechyd. Ariennir Blynyddoedd 5 a 6 i gyd gan iechyd. Gall hyn achosi problemau o ran nodi faint o fyfyrwyr a fydd yn dechrau rhaglenni hyfforddiant yn y dyfodol a ddylai gael eu datrys gan y trefniadau cynllunio newydd a ddisgrifiwyd uchod.

3.6.1.2 Pe bai angen mwy o synergedd dim ond drwy drosglwyddo'r arian o'r portffolio addysg i iechyd y gellid ei greu. Byddai angen gwneud dadansoddiad cost a budd pe bai'r newid hwn yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth.

3.6.1.3 Cafwyd achosion tebyg o drosglwyddo arian yn y gorffennol ar gyfer rhai o'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn dilyn adolygiad yr Arglwydd Dearing yn 1997. O ganlyniad i'w adolygiad trosglwyddwyd yr arian ar gyfer addysg a hyfforddiant ar gyfer therapi Lleferydd ac Iaith, Dieteteg a Phodiatreg o addysg i iechyd. Yn sgîl trosglwyddo'r arian hwn galluogwyd prosesau cynllunio gweithlu'r gwasanaeth iechyd i nodi faint o unigolion a fyddai'n cael eu hyfforddi ym mhob un o'r proffesiynau hyn fesul blwyddyn, rhywbeth na ellid ei wneud tra roedd yr arian yn cael ei ddal yn y sector addysg.
Bwriedir sefydlu cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac APADGOS er mwyn gallu trafod hyfforddiant meddygol a deintyddol cyn cofrestru.

**3.6.2 Arian ar gyfer addysg feddygol ôl-raddedig**
Mae'r ddeoniaeth a chynlluniwr y gweithlu meddygol wedi casglu data sylfaenol ar leoedd hyfforddi yng Nghymru a'r ffrydiau ariannu a ddefnyddir. Bydd hyn yn llywio trafodaethau ynghylch niferoedd hyfforddi, lleoliadau ac arian yn y dyfodol. Bydd y fframwaith a ddisgrifiwyd uchod pan fydd wedi'i gwblhau yn gwneud argymhellion ynghylch comisiynu ar gyfer y flwyddyn academaidd 2010/11.

**Argymhelliad 7. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Adrannau Iechyd gweinyddiaethau eraill y DU barhau i gydweithio'n agos ar faterion cynllunio'r gweithlu. (Derbyniwyd)**

3.7 Ar hyn o bryd mae uned y gweithlu yn aelod o fforwm cynllunio gweithlu'r DU a grŵp comisiynu'r DU. Mae swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydgysylltu â swyddogion cyfatebol yn y DU ar unrhyw faterion yn ymwneud â datblygu a rheoleiddio'r gweithlu sy'n dylanwadu ar weithgarwch cynllunio'r gweithlu.
Mae hefyd gyfathrebu parhaus yn ffurfiol drwy grŵp Gweithlu'r DU a gwaith prosiect proffesiynau penodol e.e. Moderneiddio Gyrfaoedd Meddygol a Moderneiddio Gyrfaoedd Gwyddonol

**Argymhelliad 8. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynyddu nifer y lleoedd hyfforddi i israddedigion ym maes deintyddiaeth yng Nghymru yn sylweddol ac, yn sgîl hynny, y dylai gynyddu nifer yr unigolion sy'n cael eu**

**hyfforddi mewn proffesiynau sy'n gysylltiedig â deintyddiaeth yn ôl yr angen. (Derbyniwyd)**

3.8 Darparwyd naw lle ychwanegol i fyfyrwyr deintyddiaeth yn 2003 a bu cynnydd pellach o 12 yn nifer y myfyrwyr a ddechreuodd ym mis Medi 2009. Mae nifer y lleoedd hyfforddi ar gyfer therapyddion a glanweithyddion deintyddol wedi aros yn ddigyfnewid yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Nododd cynlluniau gweithlu a gasglwyd yn ystod 2008 bod y gofyniad am lanweithyddion wedi cynyddu o 9 i 11, ac yn achos therapyddion o 8 i 11, ac fe'u comisiynwyd i ddechrau ym mis Medi 2009. Cynyddodd nifer y Lleoedd Hyfforddiant Galwedigaethol a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad i 68 o 2009-10.
Agorodd yr Uned ddeintyddol gymunedol yn Aberpennar ym mis Medi 2009 gan ddarparu hyfforddiant clinigol ychwanegol i fwy o fyfyrwyr dan hyfforddiant. Rhoddwyd arian ychwanegol i gyllido swydd swyddog datblygu i gynnal y cyfleuster ychwanegol hwn.

**Argymhelliad 9. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymchwilio i b'un a allai cynnig bwrsariaethau ychwanegol neu gymhellion ariannol eraill annog mwy o geisiadau am gyrsiau israddedig gan fyfyrwyr yng Nghymru. (Ni chafodd ei dderbyn na'i wrthod)**

3.9 Cafwyd dros 3000 o geisiadau i'r rhaglen feddygol ym Mhrifysgol Caerdydd eleni am 300 o leoedd. Gwnaed cryn nifer o'r ceisiadau hyn gan fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru. Mae Prifysgol Caerdydd wedi sefydlu cynllun sy'n ceisio annog ceisiadau o ardaloedd yng Nghymru y ceir fawr ddim ceisiadau, os o gwbl, ohonynt. Mae hyn yn cynnwys cynnal seminarau a gweithdai a system "gyfeillio" sy'n paru myfyrwyr meddygol a darpar fyfyrwyr sy'n gweithio tuag at eu harholiadau Safon Uwch.
Mae Ysgol Feddygol Caerdydd yn parhau i weithio gydag ysgolion yng Nghymru i annog ceisiadau o Gymru. Mae'n bosibl y bydd y rhaglen mynediad i raddedigion mewn meddygaeth ym Mhrifysgol Abertawe yn helpu i ddenu myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru ond mae'n rhy gynnar i ddweud a yw hyn yn wir.

**Argymhelliad 10. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymchwilio i b'un a allai cynnig bwrsariaethau ychwanegol neu gymhellion ariannol eraill annog mwy o feddygon newydd gymhwyso i gwblhau eu hyfforddiant ôl-raddedig mewn meysydd lle y mae prinder staff yng Nghymru. (Ni chafodd ei dderbyn na'i wrthod)**

3.10 Mae cynlluniwr y gweithlu meddygol wedi llunio adroddiad yn nodi'r adnoddau sydd ar gael i ddarparu hyfforddiant meddygol yng Nghymru ochr yn ochr â data gweithlu sy'n ymwneud â meddygon hyfforddedig.
Mae prinderau staff sylweddol mewn meysydd arbenigol lle mae prinder staff yn y DU.

O ran cymhellion, awgrymodd BMA y gallai llety am ddim helpu i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir mewn rhannau o Gymru o ran recriwtio. Edrychodd y grŵp gorchwyl a gorffen

ar lety a gadeiriwyd gan Michael Williams ar y cymorth a roddir i hyfforddeion yng Nghymru, gan gynnwys darparu llety am ddim ar gyfer y blynyddoedd sylfaen. Derbyniodd y Gweinidog argymhelliad y gweithgor ac mae llety am ddim bellach yn cael ei gynnig i feddygon yn ystod blynyddoedd sylfaen hyfforddiant.

At hynny mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, y ddeoniaeth a NLIAH yn parhau i weithio i wella deunydd hyrwyddo a dulliau marchnata. Mae BMA a Deoniaeth yr ôl-raddedigion yng Nghymru wedi cynhyrchu DVD i ategu'r gwaith o recriwtio i Gymru.

Sefydlwyd grŵp adolygu Meddygon Iau i adolygu amodau gwaith meddygon iau a datblygu ac ategu cynlluniau recriwtio a chadw staff ar gyfer BILlau.

**Argymhelliad 11. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog Byrddau Iechyd Lleol ymhellach i gyflogi mwy o Feddygon Teulu a Deintyddion. (Derbyniwyd)**

3.11 Ym mis Ebrill 2004 cyflwynodd y contract newydd ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol yr opsiwn o wasanaethau meddygol cyffredinol cyflogedig. Mae BILlau a phractisiau ledled Cymru wedi gwneud defnydd helaeth o hyn. Mae tua 5% o'r gweithlu bellach yn gyflogedig. Bu gwasanaeth cyflogedig yn arbennig o effeithiol wrth gynorthwyo BILlau i ymdrin â phractisiau sy'n tanberfformio. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r mentrau hyn ac mae wedi cytuno ar gontract enghreifftiol i helpu i recriwtio staff.

Mae agenda *Cymru'n Un* yn cynnwys ymrwymiad i adeiladu'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol (GDC) a chynyddu nifer y deintyddion cyflogedig. Mae tua 10% o'r gweithlu deintyddol yn gyflogedig ar hyn o bryd ac yn gweithio yn y GDC. Cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig ar rôl y GDC i atgyfnerthu'r ddarpariaeth o wasanaethau deintyddol ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed ac ategu'r gwaith o ddatblygu'r GDC. Ehangwyd rôl a gweithlu'r GDC hefyd drwy gyflwyno'r Rhaglen Wella ar Iechyd y Geg i Blant – *Cynllun Gwên* sydd wrth wraidd y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Gymru ar Iechyd y Geg. Dechreuodd rhaglen *Cynllun Gwên* ar ffurf beilot yn 2008 ac o fis Hydref 2009 mae wedi cael ei gwella a'i hehangu i gwmpasu Cymru gyfan.

**Argymhelliad 12. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi blaenoriaeth i fuddsoddi er mwyn cynyddu nifer y nyrsys cymunedol ac i'w hyfforddi i ymgymryd â'r rôl estynedig a ragwelir yn "Cynllun Oes". (Derbyniwyd)**

3.12 Cafodd newidiadau yn addysg nyrsys sy'n gweithio yn y gymuned dderbyniad da. Yn ystod 2009 datblygwyd modiwlau ychwanegol i gefnogi gwaith unigolion tuag at ddyfarniad academaidd tra'n dilyn rhaglenni addysg sydd eu hangen i gyflawni eu rôl. Nododd y cynlluniau gweithlu ar gyfer 2009 alw cynyddol am nyrsys cymunedol ac addysg a oedd ar gael drwy ddilyn modiwlau. Arweiniodd hyn at ddarparu 213 o fodiwlau yn ystod 2009/10, 90 fel modiwlau craidd a 123 fel rhai arbenigol.

Ymgynghorwyd ar sut i ddatblygu'r strategaeth nyrsio cymunedol hefyd. Mae'n gwneud argymhellion i sicrhau y darperir gwasanaeth nyrsio cymunedol teg ac effeithiol ledled Cymru gan hyrwyddo'r gwaith o'i ddatblygu'n wasanaeth o'r radd flaenaf.

**Argymhelliad 13. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried pa mor ymarferol fyddai cyflwyno cynllun cyflogaeth neu "leoliadau gwaith" gwarantedig ar gyfer nyrsys newydd gymhwyso a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn debyg i'r cynllun a gyflwynwyd yn yr Alban ar gyfer nyrsys. (Derbyniwyd mewn egwyddor)**

3.13 Gwnaeth y gweithgor cyflogaeth graddedigion sy'n monitro cyflogaeth graddedigion yng Nghymru ac yn lledaenu arfer da o ran defnyddio graddedigion newydd, argymhellion i gynorthwyo graddedigion newydd nad ydynt yn cael swyddi cyrchfan cyntaf ar ôl iddynt gymhwyso. Cytunodd y Gweinidog i dreialu system rhybuddio a chynorthwyo cynnar a fyddai'n helpu ffisiotherapyddion a Therapyddion Lleferydd ac Iaith i gael swydd Dechreuodd y cynllun peilot ym mis Awst 2009. Mae'r Grŵp cyflogaeth graddedigion yn parhau i fonitro'r sefyllfa o ran cyflogaeth ar gyfer graddedigion newydd.

**Argymhelliad 14. Argymhellwn y dylai NLIAH, fel rhan o'i waith i weithredu'r system integredig newydd ar gyfer cynllunio'r gweithlu, adolygu'r data y mae'n ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio'r gweithlu i sicrhau ei fod mor gadarn, perthnasol a chyflawn â phosibl, yn enwedig yng nghyd-destun yr hyn fydd ei angen i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. (Derbyniwyd)**

3.14 Mae'r ffrwd waith gwybodaeth am y gweithlu wedi gwneud nifer o argymhellion ar gyfer gweithredu a gyflwynwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru.
Ar gyfer y gweithlu meddygol a deintyddol: Mae cynlluniwr a gweinyddwr y gweithlu meddygol yn casglu ac yn cymharu data sy'n proffilio gwahanol agweddau ar weithlu meddygol a deintyddol Cymru. Bydd hyn yn arwain at lunio "Crynodeb o'r Gweithlu" ar gyfer pob arbenigedd, sef dogfen sy'n crynhoi'r data sydd ar gael ac yn dangos i ba raddau y mae'r gwahanol ffynonellau data yn amrywio. Dylai'r Crynodebau hyn o'r Gweithlu fod ar gael erbyn diwedd 2009, a gellir eu defnyddio fel sail i unrhyw waith pellach y mae angen ei wneud i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau yn ymwneud ag ansawdd data a nodwyd.

Cyflogwyd dadansoddwr data hefyd i sicrhau y manteisir hyd yr eithaf ar warws data'r Cofnod Staff Electronig.

**Argymhelliad 15. Argymhellwn y dylai'r contract ar gyfer meddygon teulu gael ei ddiwygio cyn gynted â phosibl i'w gwneud yn ofynnol i feddygon teulu roi gwybodaeth sylfaenol am y nifer a'r math o staff a gyflogir ganddynt. (Derbyniwyd mewn egwyddor)**

3.15 Cydnabyddir bod angen cael gwell data gan feddygon teulu. Dengys cynlluniau gweithlu ar gyfer grwpiau o staff sy'n gysylltiedig â'r cylch comisiynu addysg ar gyfer 2009 fod data mwy cywir yn cael ei gasglu a'i ddarparu. Mae data ar bob aelod o staff a thueddiadau yn dal i fod yn llai hygyrch. Nododd yr Adran Ystadegau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru set ddata ofynnol. Wrth i'r broses integredig ar gyfer cynllunio'r gweithlu ymsefydlu yn ardaloedd y BILlau newydd, gellir blaenoriaethu'r gwaith o gasglu data gan gontractwyr annibynnol. Byddai cyflwyno data er budd y ddwy ochr yn well na chymryd camau gorfodi.

**Argymhelliad 16. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno trefniadau i'w gwneud yn bosibl i gomisiynu lleoedd hyfforddi mewn addysg uwch dros gylch o bum mlynedd. (Derbyniwyd mewn egwyddor)**

3.16 O fis Ebrill 2009 mae'r broses o gynllunio'r gweithlu yn cysoni'r cylchoedd cynllunio blynyddol ar gyfer y gweithlu, arian a gwasanaethau, gan roi gwybodaeth effeithiol am brosesau comisiynu addysg blynyddol chwe mis yn gynharach nag ar hyn o bryd. Felly bydd gwell trefniadau ar gyfer casglu data am weithgarwch cynllunio'r gweithlu yn meithrin gwell hyder mewn cynlluniau comisiynu tymor hwy. Fodd bynnag, mae penderfyniadau ynghylch niferoedd comisiynu yn dibynnu ar y cylchoedd cynllunio ariannol blynyddol yn Llywodraeth y Cynulliad. Pe gellid rhannu cynlluniau ariannol dangosol tymor hwy, ni fyddai unrhyw reswm pam na ellid ymestyn contractau y tu hwnt i'r cyfnodau presennol.

**Argymhelliad 17. Argymhellwn y dylai NLIAH weithio'n agos gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ddatblygu dulliau addas o sicrhau bod digon o staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cyflogi yn y GIG yng Nghymru i ddiwallu anghenion cleifion. (Derbyniwyd mewn egwyddor)**

3.17 Cyfarfu swyddogion o Lywodraeth Cynulliad Cymru ag NLIAH i ystyried sut y gellid defnyddio arian a neilltuwyd ar gyfer comisiynu addysg i helpu i ddarparu mwy o gyrsiau yn y Gymraeg os oes galw amdanynt. Cytunodd y Bwrdd Rhanddeiliaid i gynnal asesiad o'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol yn ystod 2009/10 fel cam cyntaf. Cytunwyd i ddarparu rhaglen Therapi Lleferydd ac Iaith y bwriedir ei chomisiynu o Brifysgol Bangor am y tro cyntaf yn ystod 2009.

Mae gwaith yn mynd rhagddo yn GIG Cymru i benodi cydgysylltwyr Iaith Gymraeg i roi sylw i ofynion hyfforddi staff.
Cytunwyd i wella prosesau casglu data am yr Iaith Gymraeg fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cofnod Staff Electronig.

## 4. Argymhellion Penodol - Gofal Cymdeithasol

**Argymhelliad 18. Argymhellwn y dylai Cyngor Gofal Cymru, fel rhan o'i adolygiad o bartneriaethau gweithlu rhanbarthol, atgyfnerthu'r cysylltiadau rhyngddo a'r**

**partneriaethau gweithlu lleol a datblygu'r cyfraniad a wnânt i weithgarwch cynllunio'r gweithlu. (Derbyniwyd)**

4.1 Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng Cadeiryddion y Partneriaethau Rhanbarthol a'r Cyngor Gofal i'w hannog i gymryd rhan mewn gweithgarwch cynllunio'r gweithlu. At hynny hyrwyddwyd y cyfle i wella'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud mewn partneriaeth rhwng y partneriaethau lleol a rhanbarthol.

Mae'r partneriaethau rhanbarthol yn aelodau o Bwyllgor Datblygu'r Gweithlu'r Cyngor Gofal i roi gwybodaeth ranbarthol i lywio'r rhaglen cynllunio a datblygu'r gweithlu genedlaethol.

Ariannodd y Cyngor Gofal rhywfaint o waith gan bartneriaethau Rhanbarthol mewn perthynas â data ac mae canlyniadau'r gwaith hwn yn cael eu hystyried. Cyflwynodd y Partneriaethau Rhanbarthol adroddiadau i Bwyllgor Datblygu'r Gweithlu ym mis Medi 2009 a dangosodd yr amrywiaeth o waith sy'n cael ei wneud bod pob Rhanbarth yn cyfrannu at y gwaith o gynllunio'r gweithlu. Mae'r Cyngor Gofal hefyd yn gweithio gyda phartneriaethau rhanbarthol i nodi ffyrdd o atgyfnerthu'r cysylltiadau rhyngddynt a'r partneriaethau gweithlu lleol. Nododd y Cyngor Gofal fod angen atgyfnerthu negeseuon strategol o safbwynt Cenedlaethol, a'r ffordd orau o rannu'r rhain, eu defnyddio'n rhanbarthol a chyfleu negeseuon cyson ac amserol yn lleol.

**Argymhelliad 19. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi mwy o gymorth i'r darparwyr gofal cymdeithasol yn y sector gwirfoddol ac annibynnol a grwpiau defnyddwyr gwasanaethau i wella eu gallu i gymryd rhan mewn prosesau cynllunio'r gweithlu. (Derbyniwyd mewn egwyddor)**

4.2 Mae ffrwd waith y sector annibynnol a'r trydydd sector wedi gwneud nifer o argymhellion i'w hystyried gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Cwblhaodd Cyngor Gofal Cymru, CGGC a Sgiliau Iechyd gyfres o weithdai ledled Cymru a fynychwyd gan 150 o reolwyr o'r sector Gwirfoddol i ddangos yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer cynllunio'r gweithlu ledled y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol gan gynnwys llwybrau gyrfa a phecynnau DPP.

Bu Cyngor Gofal Cymru hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda CGGC a Sgiliau Iechyd i ymgynghori ar y Strategaeth Cymwysterau a Dysgu Sector, ledled Cymru. Daeth nifer uchel o bobl i'r digwyddiadau a ddarparodd adborth gwerthfawr gan y sector Gwirfoddol ar y dysgu a'r cymwysterau sydd eisoes ar gael a'r rhai y bwriedir eu datblygu, sydd wedi llywio'r broses o ddatblygu a chynllunio'r gweithlu ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Cyhoeddodd AGGCC yr adolygiad o Raglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (SCWDP), ym mis Ionawr 2009. Nododd yr adolygiad lwyddiant y dull o weithredu mewn partneriaeth a'r nifer gynyddol o ddyfarniadau sy'n cael eu hennill gyda chymorth y bartneriaeth. Yn 2007-08

- Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y staff o sefydliadau ac eithrio'r awdurdod lleol a aeth i ddigwyddiadau hyfforddi a gafodd gymorth grant gan SCWDP. Mynychodd 26,774 o staff o gyflogwyr gofal cymdeithasol eraill ac 8,186 o staff o asiantaethau eraill ddigwyddiadau hyfforddi.
- Mynychodd cyfanswm o 34,960 o staff nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol ddigwyddiadau hyfforddi, sy'n cyfateb i 29% o'r holl unigolion a gafodd gymorth grant i fynd i ddigwyddiadau hyfforddi.

Cafodd yr adolygiad hefyd fod cyflogwyr yn gallu mabwysiadu dull mwy cynlluniedig o ddarparu hyfforddiant o ganlyniad i'r dull o weithredu mewn partneriaeth/ grant.

**Argymhelliad 20. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi rhagor o ganllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau bod arferion comisiynu awdurdodau lleol wedi'u cydgysylltu'n llawn â'r broses o gynllunio'r gweithlu. (Derbyniwyd)**

4.3 Gweithredwyd ar yr argymhelliad hwn gan waith Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol ar gomisiynu a'r gweithlu, mewn partneriaeth ag AGGCC. Mae'r Cyngor Gofal wedi cynnull is-grŵp o'r grŵp uchod, i ystyried yn benodol anghenion y gweithlu comisiynu o ran dysgu, datblygu a chymwysterau. Mae'r gwaith hwn yn ategu gwaith y grŵp Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol a bydd yn atgyfnerthu arferion comisiynu mewn gwasanaethau plant ac oedolion a gwasanaethau a gomisiynir ar y cyd mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol.
Atgyfnerthwyd y cysylltiad rhwng comisiynu, contractio a chynllunio'r gweithlu drwy ddatblygu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Caffael a Chontractio a gwblhawyd yn ddiweddar gan Gyngor Gofal Cymru.

Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol bellach wedi'u defnyddio i ddatblygu cymwysterau NVQ yn benodol i Gymru ar lefelau 3, 4 a 5 mewn Comisiynu ar gyfer gofal cymdeithasol a chyflwynwyd y cymwysterau hyn ym mis Medi 2009 drwy'r Brifysgol Agored yng Nghymru. At hynny mae cymwysterau ar gyfer y fframwaith newydd y bwriedir ei roi ar waith yn 2011 wrthi'n cael eu datblygu a bydd y rhain yn ddefnyddiol at ddibenion datblygiad proffesiynol parhaus i reolwyr ac i aelodau generig ac arbenigol o staff o fewn y gweithlu.

Bu'r Cyngor Gofal yn gweithio fel rhan o Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gomisiynu Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ar gais y grŵp hwnnw, cynullodd is-grŵp dysgu a chymwysterau. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolaeth o blith cydweithwyr gwirfoddol, statudol a pholisi ac mae wedi gweithio gydag AGGC a Llywodraeth Cynulliad Cymru i nodi dau awdurdod lleol a fydd yn treialu holiadur ar-lein a fydd yn nodi dadansoddiad o anghenion hyfforddi i'r gweithlu comisiynu. Bydd hyn yn galluogi cyflogwyr i nodi cymwysterau â blaenoriaeth a thargedu rolau/swyddogaethau swyddi penodol o'r tu mewn i'r gweithlu comisiynu mewn gofal cymdeithasol. Gwneir penderfyniad ar waith pellach yn y maes hwn ar ôl dadansoddi canlyniadau'r cynllun peilot.

Gwahoddwyd y Cyngor Gofal i roi prif araith yng Nghynhadledd Flynyddol Grŵp Comisiynu/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru Gyfan ym mis Hydref 2009 ac i ddarparu dau weithdy yn y digwyddiad i gynnwys y defnydd o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol o fewn prosesau cynllunio'r gweithlu a phrosesau Adnoddau Dynol.

**Argymhelliad 21. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i ddatblygu cymorth a hyfforddiant i staff cynllunio'r gweithlu mewn awdurdodau lleol i alluogi awdurdodau lleol i feithrin eu gallu i gynllunio'r gweithlu. (Derbyniwyd)**

4.4 Mae Cynllun Gweithredu'r Gweithlu Bywydau Bodlon Cymunedau Cefnogol yn cynnwys yr angen i asiantaethau gwasanaethau cymdeithasol wella eu gallu a'u capasiti o ran cynllunio'r gweithlu. Caiff y gwaith ei gynllunio a'i gyflawni drwy gynnwys y partneriaid allweddol pan fydd adnoddau ar gael.

Drwy waith y Rhwydwaith Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc mae'r Cyngor Gofal wedi helpu'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc i gyflawni eu rôl o ran Cynllunio'r Gweithlu. Mae wedi gwneud hyn drwy ddatblygu Adnoddau Cynllunio'r Gweithlu sy'n darparu llinell sylfaen gyffredin i'r holl bartneriaethau wrth iddynt ddatblygu eu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc. Mae CLILC a'r Uned Cefnogi Partneriaethau hefyd wedi bod yn rhan annatod o'r gwaith hwn.

**Argymhelliad 22. Argymhellwn, yn amodol ar werthusiad o fodel Lloegr, y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Gyngor Gofal Cymru, gyflwyno Set Ddata Ofynnol Genedlaethol i gasglu gwybodaeth am y gweithlu ar gyfer y sector gofal cymdeithasol cyfan yng Nghymru. (Derbyniwyd)**

4.5 Comisiynodd y Cyngor Gofal astudiaeth o'r set Ddata Ofynnol Genedlaethol yng Nghymru. Nododd yr astudiaeth sut y gellid sefydlu set ddata o'r fath a chostau gweithredu a chynnal set ddata o'r fath. Cyflwynwyd cyngor a phrisiadau er mwyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru eu cymeradwyo. Nid yw'r adnoddau ar gyfer y gwaith hwn wedi'u nodi eto.

**Argymhelliad 23. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Gyngor Gofal Cymru, adolygu'r trefniadau ôl-gymhwyso ar gyfer gweithwyr cymdeithasol er mwyn sicrhau mwy o eglurder a chysondeb ledled Cymru. (Derbyniwyd)**

4.6 Cymeradwyodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y fframwaith ar gyfer Hyfforddiant Ôl-gymhwyso i weithwyr cymdeithasol drwy gytuno ar y Rheolau a'r Gofynion ym mis Mawrth 2007. Gellir datblygu'r fframwaith ymhellach drwy'r ddarpariaeth a geir yn y rheolau i nodi gofynion o ran cyrsiau penodol. Mae'r rhain yn galluogi Cyngor Gofal Cymru i fod yn fwy rhagnodol ynghylch lefel, maint, canlyniadau dysgu neu ddulliau asesu rhaglenni lle rydym yn arbennig o awyddus i sicrhau cysondeb ledled Cymru.

Ym mis Medi 2009 ceir chwe phrifysgol sy'n cynnig modiwlau Cymhwyster Proffesiynol a chymeradwywyd cyfanswm o 22 o fodiwlau gan y Cyngor Gofal. O ran Gofynion Cyrsiau Penodol, addaswyd y gofynion o ran gweithwyr Cymdeithasol Cymeradwy i adlewyrchu'r newidiadau mewn Deddfwriaeth Iechyd Meddwl ac erbyn hyn maent yn cyfeirio at gyrsiau ar gyfer rôl newydd Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy. Lluniwyd gofynion drafft ar gyfer gwaith cymdeithasol gofal oedolion at ddibenion ymgynghori arnynt ac mae gofynion o ran dysgu ac asesu ymarfer uwch mewn gwaith cymdeithasol wedi bod yn destun ymgynghoriad eang a llawn.

Bu'r Cyngor Gofal hefyd yn gweithio gydag ADSS i ddatblygu model ar gyfer llwybr gyrfa i weithwyr cymdeithasol sy'n seiliedig ar y fframwaith Cymhwyster Proffesiynol. Un o nodau'r fframwaith yw atgyfnerthu'r ymgais i gadw gweithwyr cymdeithasol. Ystyriwyd y model gan y Bartneriaeth Cynghori Strategol Genedlaethol ar gyfer hyfforddiant gwaith cymdeithasol, swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae papur trafod ar fin cael ei gyhoeddi fel sail ar gyfer ymgynghori. Caiff y gwaith hwn ei ddatblygu gan ADSS a'r Cyngor Gofal.

**Argymhelliad 24. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda phartneriaid mewn llywodraeth leol i gysoni telerau ac amodau cyflogaeth gweithwyr cymdeithasol. (Ni chafodd ei dderbyn na'i wrthod)**

4.7 Nid yw telerau nac amodau yn rhan o gylch gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae CLILC yn ymwybodol o'r argymhelliad hwn a'r materion sy'n codi ohono.
Ym mis Mehefin 2009 cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol y byddai grŵp gorchwyl gweithlu newydd yn cael ei sefydlu i fynd i'r afael â'r materion sy'n dal i fod yn achosi pryder i'r sector.

**Argymhelliad 25. Argymhellwn y dylai Cyngor Gofal Cymru adolygu ei fframwaith sefydlu i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ystyried anghenion gweithwyr mudol, ac y dylai ymdrechu o'r newydd i sicrhau bod y fframwaith yn rhan o weithdrefnau safonol ar gyfer awdurdodau lleol. (Derbyniwyd)**

4.8 Bwriedir i'r fframwaith sefydlu sicrhau y cyflawnir set ofynnol o ganlyniadau ar gyfer pob gweithiwr ac adolygwyd hyn yn ddiweddar. Mae canlyniadau'r adolygiad yn cael eu hystyried, ond cafwyd amrywiaeth o adborth cadarnhaol sy'n dangos bod sefydliadau yn y sector statudol, y sector preifat a'r 3$^{ydd}$ sector yn dra ymwybodol o hyn a'u bod yn ei ddefnyddio. Gwnaed gwaith i sicrhau y darperir yn benodol ar gyfer anghenion sefydlu'r sector blynyddoedd cynnar yng Nghymru

Mae'r Cyngor Gofal wedi ysgrifennu at y partneriaethau gweithlu lleol a rhanbarthol i atgyfnerthu'r wybodaeth ffeithiol am faint y gweithlu mudol, ei anghenion dysgu a'r trefniadau sydd ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny yn lleol ac yn rhanbarthol.
Mae'n debyg mai'r hyn sydd ei angen yw rhywbeth sy'n rhagflaenu'r fframwaith sefydlu.

**Argymhelliad 26. Argymhellwn y dylid ymestyn cylch gorchwyl y tasglu presennol o ran yr iaith Gymraeg yn y gwasanaeth iechyd i gynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol. (Derbyniwyd)**

4.9 Ymhlith aelodau'r tasglu mae Rhian Huws-Williams (Prif Swyddog Gweithredol y Cyngor Gofal) a Graham Williams. Datblygwyd cynllun gwaith ar gyfer gofal cymdeithasol

## 5. Argymhellion Penodol - Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Argymhelliad 27. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r amserlen ar gyfer ei strategaeth cynllunio'r gweithlu iechyd i sicrhau mwy o gydgysylltiad â'r sector gofal cymdeithasol cyn gynted â phosibl. (Derbyniwyd)**

5.1 Mae ffrwd waith y Rhyngwyneb rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi gwneud argymhellion i atgyfnerthu gweithgarwch cynllunio traws-sector. Mae'r grŵp wedi gwneud nifer o argymhellion i'w hystyried gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Argymhelliad 28. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r systemau ar gyfer comisiynu hyfforddiant i therapyddion galwedigaethol a phroffesiynau therapi eraill gyda'r nod o ganoli'r trefniadau hyn. (Derbyniwyd yn rhannol)**

5.2 Mae'r Cyngor Gofal mewn partneriaeth ag ADSS wedi ymestyn y gwaith peilot sy'n cael ei wneud i wella prosesau cynllunio'r gweithlu ar gyfer hyfforddiant gwaith cymdeithasol, i gynnwys gweithgarwch cynllunio'r gweithlu ar gyfer Therapyddion Galwedigaethol ym maes gwasanaethau cymdeithasol.
Ystyriodd NLIAH waith casglu data o sectorau gofal cymdeithasol a'i gynnwys yn y cynlluniau comisiynu ar gyfer 2009. Mae cyllid iechyd yn dal i ariannu'r holl raglenni addysg ThG a gomisiynir.
Mewn partneriaeth ag ADSS Cymru, mae'r Cyngor Gofal wedi parhau i gyflwyno amcangyfrifon ar gyfer nifer y Therapyddion Galwedigaethol sydd eu hangen ar Awdurdodau Lleol i NLIAH yn 2010/11.